# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-08-09 Papur 3 : 17 Mai 2009

## Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhestru'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Daeth llawer o'r wybodaeth ddiweddaraf i law ar ffurf gohebiaeth. Pan fo'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth wedi'u cynnwys fel atodiad PET(3) 08-09 Papur 3A i'r papur hwn.

### (i) P-03-098 Dileu enw Ysgol Gyfun Rhydfelen

### Geiriad y ddeiseb:

Rydym wedi cael ar ddeall fod y Cynulliad wedi dyfarnu o blaid Awdurdod Addysg Rhondda Cynon Taf parthed y weithred o newid enw Ysgol Gyfun Rhydfelen, a'i ddull o sicrhau'r newid hwn. Mae hyn yn destun syndod a gofid i ni. Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau pellgyrhaeddol o safbwynt pwerau a hawliau byrddau llywodraethol ysgolion. Mae hefyd, wrth gwrs, yn cadarnhau penderfyniad di-sail a diangen yr Awdurdod i ddileu enw ysgol sydd â lle mor amlwg yn hanes Addysg Cymru, a hynny'n gwbwl groes i'r farn a leisiwyd yn gyson gan lywodraethwyr yr ysgol, y rhieni, disgyblion, trwy Gyngor yr Ysgol, a staff. Deallwn fod yr Arglwydd Gwilym Prys Davies eisoes wedi cysylltu trwoch chi ag aelodau 'r Pwyllgor Deisebau. Carem ategu ei gais am ddiwygiad cyflym o'r is-deddfwriaethau perthnasol, gan ddychwelyd yr hawl i newid enw ysgol i'w llywodraethwyr.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-98.htm

**Cynigiwyd gan:** Yr Arglwydd Prys Davies

**Nifer y deisebwyr:** 25

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 31 Ionawr 2008 a 10 Ebrill 2008.

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan Gadeirydd Pwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 08-09 Papur 3A.

### (ii) P-03-099 Llwybr Ceffylau yn Nhalybont-ar-Wysg

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu llwybr ar gyfer holl ddefnyddwyr heblaw modurwyr ochr yn ochr â'r A40 rhwng y gilfan bicnic yn y Bwlch a'r gyffordd newydd yn Nhalybont-ar-Wysg, gan greu cyswllt diogel rhwng y Mynydd Du a rhwydwaith Hawliau Tramwy Bannau Brycheiniog.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-99.htm

**Cynigiwyd gan:** Lucienne Bennett

**Nifer y deisebwyr:** 18

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 21 Chwefror 2008, 8 Mai 2008 a 31 Mawrth 2009.

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 08-09 Papur 3A.

### (iii) P-03-124 Cysgliad

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod fersiwn Windows o'r geiriadur/thesawrws Cysgliad ar gael i'w lwytho am ddim.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-124.htm

**Cynigiwyd gan:** Alun Evans

**Nifer y deisebwyr:** 11

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 11 Mehefin 2008, 2 Hydref 2008, 20 Tachwedd 2008 a 31 Mawrth 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan y Gweinidog dros Dreftadaeth ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 08-09 Papur 3A.

### (iv) P-03-144 Cŵn Tywys y Deillion

### Geiriad y ddeiseb

Yr ydym ni, y cynrychiolwyr a lofnodir isod, yn deisebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i osod cyfrifoldeb penodol ar awdurdodau lleol i fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd, a chydymffurfio â hwy drwy beidio â chreu canol trefi, strydoedd mawr na strydoedd preswyl gydag arwynebau a rennir sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl ddall a phobl sy'n gweld yn rhannol a phobl anabl eraill, gan eu hallgáu i bob pwrpas o amgylchedd y stryd

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-144.htm

**Cynigiwyd gan:** Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion

**Nifer y deisebwyr:** 10

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 25 Mehefin 2008, 2 Hydref 2008, 4 Rhagfyr 2008, 27 Ionawr 2009 a 31 Mawrth 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 08-09 Papur 3A.

### (v) P-03-153 Celf Corff

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfyngiadau ar yr oed y gall plentyn dan oed gael celf corff. Dylid cyfyngu'r oed ar gyfer celf corff, ar wahân i'r clustiau a'r trwyn, i 16 oed.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-153.htm

**Cynigiwyd gan:** Y Cynghorydd Russell Down

**Nifer y deisebwyr:** 14

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 10 Chwefror 2009 a 31 Mawrth 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 08-09 Papur 3A.

### (vi) P-03-179 Myfyrywr Ôl 19 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

### Geiriad y ddeiseb

Yr ydym ni sydd wedi llofnodi isod yn gofyn bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi sylw i'r problemau sy'n wynebu myfyrwyr 19+ oed sydd ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu cymhleth. Ar gyfer myfyrwyr nad ydynt am fynychu addysg breswyl, nid oes Coleg priodol yng Nghymru iddynt ei fynychu sy'n diwallu eu hanghenion cymhleth.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-179.htm

**Cynigiwyd gan:** Julie Prosser

**Nifer y deisebwyr:**10

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 06 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009 a 10 Chwefror 2009.

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan Gadeirydd Pwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad ac mae wedi'i hatodi o PET(3) 08-09 Papur 3B.

### (vii) P-03-203 Addysg bellach am bobl ifanc gydag amhariadau cymhleth

## Geiriad y ddeiseb

Mae Scope Cymru yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu Addysg Bellach ar gyfer pobl ifanc â nam cymhleth, wedi ei chydleoli ar gampysau colegau Addysg Bellach prif ffrwd presennol ar amryfal safleoedd ar draws Cymru.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-203.htm

**Cynigiwyd gan:** Scope Cymru

**Nifer y deisebwyr:**1

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 31 Mawrth 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan Gadeirydd Pwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad ac mae wedi'i hatodi o PET(3) 08-09 Papur 3B.

## (viii) P-03-197 Achub y Vulcan

## Geiriad y ddeiseb

Mae Gwesty'r Vulcan yn Stryd Adam, a adeiladwyd yn 1853, yn un o dafarndai hynaf Caerdydd. Trefnwyd iddo gael ei ddymchwel ym mis Mehefin 2009 i wneud lle i faes parcio aml-lawr a fflatiau. Helpwch ni i wneud i'r datblygwyr gynnwys y Vulcan yn eu dyluniadau a rhoi stop ar y fandaliaeth ddianghenraid hon o ddiwylliant a hanes Caerdydd. Mae sôn am symud y dafarn i Amgueddfa Sain Ffagan ond ni ddylai'r Vulcan fod mewn amgueddfa; dylai fod lle y bu am 155 blynedd - yng nghanol Caerdydd.

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn credu bod mwy o werth i Gaerdydd o gael Gwesty'r Vulcan yn sefyll nag o'i gael wedi'i ddymchwel, ac mae mwy o werth iddo o'i gael yn sefyll lle y mae nag o'i gael mewn amgueddfa. Rydym yn annog y datblygwyr i barchu diwylliant a hanes Caerdydd a diogelu'r adeilad hanesyddol hwn ar ei safle presennol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-197.htm

**Cynigiwyd gan:** Rachel Thomas

**Nifer y deisebwyr:** 5,000

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 02 Mawrth 2009 a 17 Mawrth 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 08-09 Papur 3A.

## (ix) P-03-206 Nofio am ddim drwy'r flwyddyn

## Geiriad y ddeiseb

Hoffai Clwb Ieuenctid yr Ammanford Junior Gateway ofyn a fyddech cystal â llofnodi'n deiseb a fydd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyngor lleol. I gael cyfleusterau hamdden am ddim drwy'r flwyddyn i blant a phobl ifanc

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-206.htm

**Cynigiwyd gan:** Ammanford Gateway Club

**Nifer y deisebwyr:** 562

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 05 Mai 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Gofynnodd y Pwyllgor am gopi o adroddiad y Pwyllgor Archwilio am weithgaredd corfforol yng Nghymru. Mae copi wedi'i atodi fel rhan o PET(3) 08-09 Papur 3A.

## (x) P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy

## Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymchwilio i sut i ddarparu cymorth a gwybodaeth effeithiol i bobl yng Nghymru sy'n chwilio am waith, hyfforddiant neu sy'n ceisio cychwyn menter fusnes yn lleol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-206.htm

**Cynigiwyd gan:** Bwyllgor Materion Cymunedol Cyngor Tref Mynwy

**Nifer y deisebwyr:** 286

**Trafodwyd gan y Pwyllgor eisoes ar:** 31 Mawrth 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd gwybodaeth gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac mae wedi'i hatodi fel rh